COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl204

Amseru:

Teitl: Cyllid ar gyfer prynu 2 gerbyd UPFf

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:

Crynodeb Gweithredol:
Cyflwynodd yr heddlu ffurflen cynnig prosiect i'r bwrdd Newid a Thrawsnewid yn gofyn am gyfraniad o £62,000 tuag at brynu 2 gerbyd UPFf newydd. Cynigwyd y byddai cerbydau ychwanegol o fewn y fflyd yn galluogi UPFf HDP i fodloni anghenion y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu'n llawn ac yn fwy effeithiol. Bydd cynnydd yn y fflyd yn rhoi mwy o gadernid i'r heddlu pan mae cerbydau'n cael eu difrodi a'u tynnu oddi ar y ffordd i'w gwasanaethau a chyflawni gwaith cynnal a chadw. Bydd cynyddu'r fflyd â'r cerbydau perfformiad uwch hyn yn helpu i gyflawni'r amcanion a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu - yn benodol, drwy gadw ein cymunedau'n ddiogel drwy ryng-gipio troseddwyr peryglus a'r rhai sy'n mynd yn groes i reoliadau traffig, gan gyflwyno perygl sylweddol i ddinasyddion sy'n parchu'r gyfraith.

Mae CHTh wedi cytuno i gyfrannu tuag at brynu'r cerbydau hyn i'r swm o £62,000 o gyllideb y gronfa wrth gefn ar gyfer Ailhyfforddi Gyrwyr.

Argymhelliad:
Cyfrannu £62,000 gyllideb y gronfa wrth gefn ar gyfer Ailhyfforddi Gyrwyr er mwyn prynu 2 gerbyd UPFf newydd.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: **Dyddiad:12.02.21**